Criminal Justice Joint Inspection

# Effaith pandemig Covid-19 ar y system cyfiawnder troseddol – adroddiad cynnydd

Mai 2022

# Cynnwys

**Cynnwys** .......... **2**

**Rhagair** .......... **3**

**1. Cyflwyniad** .......... **6**

**2. Llwyth achosion troseddu a chyfiawnder troseddol yn ystod y pandemig** .......... **7**

Amcangyfrifon cyffredinol o droseddu .......... 7

**3. Adferiad: Yr Heddlu** .......... **13**

I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal? .......... 13

Arwyddion o gynnydd .......... 14

**4. Adferiad: Gwasanaeth Erlyn y Goron** .......... **15**

I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal? .......... 15

Arwyddion o gynnydd .......... 16

**5. Adferiad: Gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid** .......... **18**

I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal? .......... 18

Y Gwasanaeth Prawf .......... 18

Arwyddion o gynnydd .......... 19

Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid .......... 20

Arwyddion o gynnydd .......... 20

**6. Adferiad: Carchardai** .......... **21**

I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal? .......... 21

Arwyddion o gynnydd .......... 22

**7. Pa risgiau sydd ar ôl?** .......... **23**

**8. Sylwadau i gloi** .......... **26**

ISBN: 978-1-914478-92-5

© Hawlfraint y Goron 2022

Caniateir i chi ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r ddogfen/cyhoeddiad hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn: www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji.

# Rhagair

Mae pandemig Covid-19 a chyfraddau heintio uchel yn parhau i gael effaith fawr ar draws y system cyfiawnder troseddol (SCT) yng Nghymru a Lloegr. Y llynedd, fe wnaethom adrodd ar y newidiadau niferus a gyflwynwyd mewn cyfnod byr i gydymffurfio â chyfreithiau/cyfyngiadau newydd ac i ddiogelu iechyd unigolion.

Roedd effaith y pandemig ar y system cyfiawnder troseddol, yn yr un modd ag agweddau eraill ar fywyd cyhoeddus a phreifat, yn ddigynsail. Fodd bynnag, gan fod y cyfyngiadau wedi llacio, nid yw rhai rhannau o'r SCT yn ymateb yn ddigon cyflym i wrthdroi newidiadau neu adfer perfformiad i lefelau cyn y pandemig. Drwy gydol y pandemig, mae'r cyfyngiadau wedi bod yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr. Er bod y cyfyngiadau ar fywyd bob dydd wedi llacio erbyn hyn, mae'r SCT ymhell o gael ei adfer ac mewn rhai rhannau mae'n parhau i weithredu ar lefelau annerbyniol. Mae carcharorion yn dal i dreulio 22.5 awr y dydd yn eu cell; mae cannoedd o filoedd o oriau o waith di-dâl yn mynd heb eu cwblhau yn y Gwasanaeth Prawf; ac mae ôl-groniadau Llys y Goron yn dal yn uchel. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i Wasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu, carchardai, gwasanaethau prawf a gwasanaethau troseddau ieuenctid weithio'n ddi-dor, yn effeithlon ac yn effeithiol i atal ac ymateb i droseddau, a thrwy wneud hynny i'w hamddiffyn. Rydym wedi canfod bod cyfiawnder yn cael ei oedi, ei wrthod neu ei darfu mewn gormod o achosion o lawer.

Mae hyn mewn cyd-destun o alw cynyddol ar y System Cyfiawnder Troseddol. Rhwng 01 Hydref 2020 a 30 Medi 2021, roedd y gyfradd droseddu gyffredinol wedi cynyddu 14 y cant o'i chymharu â dwy flynedd yn cyn hynny.[1] Cafodd hyn ei sbarduno gan gynnydd mawr mewn twyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron, ond roedd hefyd yn cynnwys y nifer uchaf o drais a throseddau rhywiol a gofnodwyd erioed gan yr heddlu mewn cyfnod o 12 mis. Mae heddluoedd wedi gwneud cynnydd da tuag at uchelgais y llywodraeth i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu newydd erbyn mis Mawrth 2023, ond ni fydd hyn yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r diffyg ditectifs profiadol ac arbenigwyr fforensig digidol y mae mawr eu hangen heddiw. Mae llwythi gwaith yn dal yn uchel, a'r llinell las denau yn cael ei hymestyn.

O ganlyniad, er y gall yr heddlu fod yn effeithiol ac yn effeithlon o ran dod â rhai troseddwyr o flaen eu gwell, mae rhai pryderon perthnasol iawn yn dal i fodoli ynghylch y nifer isel o ganlyniadau ymchwiliol ar gyfer llawer o fathau o droseddau. Felly, mae'n bwysig bod yr heddlu'n achub y blaen ar droseddau, ac yn dwysáu eu hymdrechion i atal troseddu, mewn partneriaeth ag asiantaethau a ffrydiau eraill y wladwriaeth, a'r cyhoedd.

Mae pandemig Covid-19 hefyd wedi gwaethygu'r heriau presennol o ran adnoddau yn y GEG, y carchardai a'r gwasanaethau prawf. Yn y GEG, roedd cyllidebau staffio wedi cynyddu, ond roedd rhai Ardaloedd yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chyflenwi staff yn lle staff a oedd yn gadael neu'n cael eu tynnu o'r gwasanaeth am yr un rhesymau ag yr oedd yn effeithio ar yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol, fel salwch, gwarchod neu addysgu gartref. Roedd y gwaith o gynefino, hyfforddi a mentora staff newydd yn ychwanegu at feichiau rheolwyr a chydweithwyr mwy profiadol. Mae'r broses recriwtio genedlaethol ar gyfer erlynwyr yn mynd rhagddi ac mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adrodd er bod nifer fach o Ardaloedd yn dal i gael trafferth recriwtio, ddiwedd mis Mawrth 2022 roedd gan Wasanaeth Erlyn y Goron gyfradd swyddi gwag gyffredinol ar gyfer Uwch Erlynwyr y Goron o 1.5 y cant.

Gadawodd llawer o fargyfreithwyr iau y bar annibynnol yn nyddiau cynnar y cyfyngiadau symud ac nid ydynt wedi dychwelyd, gan lesteirio gallu Gwasanaeth Erlyn y Goron i ymdrin â gwrandawiadau llys gydag eiriolwyr allanol. Mae hyn yn golygu bod Gwasanaeth Erlyn y

[1] Crime in England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Goron yn gorfod defnyddio ei staff ei hun i ddelio â'r cynnydd sylweddol mewn gwaith achos o lwyth achosion cynyddol ac ôl-groniadau llysoedd, yn ogystal â delio â llysoedd a fyddai, yn y gorffennol, wedi cael eu cynnwys gan eiriolwyr allanol. Mae hyn yn ychwanegu baich sylweddol. Yn y llysoedd ynadon, mae nifer yr ôl-groniadau wedi gostwng, ac mae rhai Ardaloedd, ond nid pob un, wedi gweld llwyth achosion byw yn gostwng yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig. Mae data cyhoeddedig Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer Ch3 (Hydref i Ragfyr 2021) yn dangos bod llwyth achosion byw y llysoedd ynadon wedi gostwng ar gyfradd gyfartalog o 11.5 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn y chwarter diwethaf, roedd ifer yr achosion a dderbyniwyd yn fwy na'r nifer a gwblhawyd, ac er hynny mae'r llwyth achosion cyffredinol yn y llys ynadon yn dal tua 20 y cant yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig, ond yn ddaearyddol mae anghysondebau mawr.

Y llynedd, gwnaethom hefyd adrodd ar ôl-groniadau sylweddol yn Llys y Goron. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2021, roedd 25 y cant o achosion (14,612 o achosion) wedi bod yn aros am flwyddyn neu fwy i ddod i'r llys.[2] Mae nifer yr achosion sy'n aros dros flwyddyn wedi cynyddu dros 340 y cant ers mis Mawrth 2020.[3] Pan fydd treialon Llys y Goron yn mynd rhagddynt, 282 diwrnod yw'r cyfartaledd (cymedr) ar gyfer achosion sy'n aros i'w clywed. Mae data diweddaraf Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos llwyth achosion Llys y Goron byw 54 y cant yn uwch na'i lwyth achosion cyn y pandemig, ac nid yw cyfraddau effeithiolrwydd treialon cystal â chyn y pandemig, sy'n golygu bod llawer o achosion yn cael eu gohirio – gan gynyddu'r ôl-groniadau cyffredinol.

Mae'r posibilrwydd o aros blynyddoedd am gyfiawnder yn debygol o fod yn drawmatig i ddioddefwyr a'u teuluoedd ac mae'n cael effaith niweidiol ar gyfiawnder ei hun, gan ei gwneud yn fwy tebygol y bydd dioddefwyr yn rhoi'r gorau i'w hachosion. Mae'r baich ar yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a staff y llys o'r llwyth achosion byw a'r ôl-groniadau yn y llysoedd yn enfawr. Mae sicrhau, dros gyfnodau estynedig, bod achosion yn barod, ac yn aros yn barod ar gyfer treial, bod achosion difrifol neu gymhleth ac achosion cystodaeth yn cael eu blaenoriaethu, a bod dioddefwyr a thystion yn cael eu cadw'n rhan o'r broses, yn heriol iawn.

Mae'r gwasanaethau prawf wedi profi newid strwythurol mawr dros y flwyddyn ddiwethaf, gan fod yr holl wasanaethau ledled Cymru a Lloegr wedi cael eu huno ac erbyn hyn yn cael eu darparu gan un corff sector cyhoeddus. Mae'r Gwasanaeth Prawf newydd wedi etifeddu problemau gan ei ragflaenwyr, gan gynnwys diffyg swyddogion prawf cymwysedig a phrofiadol mewn rhai rhanbarthau. Er bod y Gwasanaeth Prawf wedi gallu dychwelyd rhywfaint at waith 'arferol' yn ystod 2021, mae nifer fawr o orchmynion llys yn dal heb eu cwblhau ac mae'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniadau hyn wedi bod yn siomedig o araf. Yn bryderus, mae arolygwyr yn dal i ganfod mai amddiffyn y cyhoedd yw'r maes perfformiad gwannaf o hyd ac mae arolygiadau cynnar o'r gwasanaeth unedig newydd wedi bod yn siomedig.

Mae'n ymddangos bod gwasanaethau troseddau ieuenctid wedi delio'n well â'r pandemig, gyda dros ddwy ran o dair o'r rheini a arolygwyd yn 2021 yn cael gradd 'Da' neu 'Rhagorol', a hynny wedi'i helpu gan lwythi achosion llai a mwy o hyblygrwydd o ran modelau gweithredu lleol. Fodd bynnag, er bod nifer y plant sy'n cael rhybudd neu ddedfryd yn gostwng, mae anghenion y plant sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol wedi mynd yn fwy difrifol. Mae'r pandemig wedi gwneud bywyd yn anoddach fyth i'r plant hyn, ac mae gan lawer ohonynt anghenion cymhleth a lluosog yn barod. Mae arweinwyr wedi sôn

[2] Criminal court statistics quarterly: October to December 2021 - GOV.UK

[3] Committee of Public Accounts. (2022). *Reducing the Backlog in Criminal Courts*. Ar gael yn https://publications.parliament.uk/pa/cm5802/cmselect/cmpubac/643/report.html.

am broblemau o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi plant i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant.

Yn y carchar, mae'r adferiad ar ôl y pandemig wedi bod yn araf ac yn anghyson. Mae'r amser cynyddol y mae'n ei gymryd i gwblhau achosion yn Llys y Goron yn golygu bod diffynyddion yn gorfod treulio mwy o amser yn aros am gasgliad yn yr achos yn eu herbyn, ac i'r rhai sydd yn y ddalfa, mae'r effaith yn arbennig o ddifrifol. Mae gormod o garcharorion yn dal i dreulio 22.5 awr dan glo bob dydd – sydd yn wahanol iawn i godi cyfyngiadau y tu hwnt i waliau'r carchar. Mae'r diffyg cyswllt cymdeithasol, gan gynnwys gyda theuluoedd, wedi cael effaith enbyd ar les carcharorion. Mae cyfnodau hir dan glo hefyd wedi cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant neu adsefydlu. Rhaid cael mwy o ddisgwyliadau ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni. Os yw carcharorion yn llwyddo i ailymuno â'r gymuned ehangach pan gânt eu rhyddhau, mae angen iddynt gael eu haddysgu a'u hyfforddi ar gyfer gwaith, cael cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a chael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol gan dîm staff effeithiol sydd wedi'i hyfforddi'n dda.

Mae prinder staff mewn carchardai a chanolfannau hyfforddi diogel wedi cyfyngu ar allu staff i ddarparu perthnasoedd ystyrlon ac adeiladol gyda'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Yn y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf, mae prinder staff hyfforddedig wedi llesteirio'r gwaith o ddarparu rhaglenni adsefydlu. O ganlyniad, mae pobl yn gadael y carchar a/neu'n cwblhau dedfrydau cymunedol heb roi sylw i'w hymddygiad troseddol – mae hyn yn gyfle a wastraffwyd ac yn fethiant i gyflawni ewyllys y llys.

Er bod nifer o broblemau o hyd o ganlyniad i effaith y pandemig, rydyn ni wedi gweld achosion lle mae'r pandemig wedi arwain at fwy o feddwl strategol, ar draws asiantaethau, am yr heriau mae Covid-19 wedi'u hachosi. Er enghraifft, roedd byrddau adfer ar y cyd a sefydlwyd gan fyrddau cyfiawnder troseddol lleol yn helpu i ddod ag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol at ei gilydd, gyda phwrpas cyffredin clir yn wyneb y pandemig. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yna gynllun trosfwaol ar gyfer sut y bydd y System Cyfiawnder Troseddol yn adfer i lefelau cyn y pandemig. Yn hytrach, mae pob rhan o'r system yn gweithredu yn unigol ac yn cael eu gadael i bennu eu cwrs eu hunain. Gyda'i gilydd, mae hyn yn rhoi darlun cymysg iawn.

Rydym yn cymeradwyo gwaith caled ac ymrwymiad y staff sy'n darparu'r gwasanaethau hyn dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn aml mae eu gwaith yn galed, ac maent yn ei gyflawni yn ddiymhongar. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, a'n harolygiadau parhaus, yn parhau i dynnu sylw at feysydd ymarfer effeithiol yn ogystal â rhoi argymhellion i uwch arweinwyr i ailadeiladu ac adfer ein System Cyfiawnder Troseddol.

## 1. Cyflwyniad

1.1. Ym mis Ionawr 2021, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad 'cyflwr y genedl'[4] ar y system cyfiawnder troseddol, yn seiliedig ar ein canfyddiadau arolygu cyfunol dros y flwyddyn flaenorol, pan oedd pandemig Covid-19 wedi tarfu'n ddifrifol ar wasanaethau.

Roedd o'r farn:

*'Mae'n wir glod i'r System Cyfiawnder Troseddol, er gwaethaf y pandemig, bod unrhyw wasanaeth wedi cael ei gynnal. Er mai ychydig iawn a wyddid am y feirws a sut y byddai'n ymddwyn, parhaodd llawer o bobl yn y System Cyfiawnder Troseddol i ddarparu gwasanaethau ar risg bersonol ac unigol. Mae hyn yn rhywbeth na ddylid ei anghofio.'*

1.2. Adroddwyd gennym fod yr heddlu wedi sefydlu canolfan gydlynu genedlaethol ac wedi gweithredu rhaglen ddysgu genedlaethol. Manteisiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) ar ddigideiddio i alluogi gweithio o bell, a rhoddodd carchardai fesurau ar waith yn ddi-oed i reoli lledaeniad y feirws. Yn ogystal, roedd y gwasanaethau prawf wedi rhoi modelau darparu eithriadol ar waith er mwyn blaenoriaethu gwaith, ac roedd y llysoedd wedi gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg fideo.

1.3. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod gwasanaethau wedi dioddef oherwydd y pandemig. Er enghraifft, mewn carchardai, cafodd addysg ei chwtogi'n ddifrifol a chafodd rhaglenni adsefydlu yn y gymuned eu gohirio.

1.4. Gwelsom hefyd fod llawer o'r heriau eisoes wedi bod yno cyn y pandemig, a bod tanariannu a phroblemau strwythurol blaenorol wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. Roedd gweithio gartref wedi cael effaith ar les rhai pobl ac roedd defnyddwyr gwasanaeth wedi cael llawer llai o fynediad wyneb yn wyneb ag asiantaethau cyfiawnder troseddol.

1.5. Y pryder mwyaf, fodd bynnag, oedd y sefyllfa mewn llysoedd a'r effaith a gafodd hyn ar yr holl sectorau a arolygwyd gennym, ac ar ddioddefwyr a thystion. Daethom i'r casgliad bod angen cymryd camau brys a sylweddol i leihau a dileu'r ôl-groniadau cronig mewn achosion a sicrhau bod llysoedd yn ddiogel i bawb a oedd yn eu mynychu ac yn gweithio ynddynt.

1.6. Mae ein harolygwyr wedi siarad â llawer o ymarferwyr, rheolwyr, arbenigwyr a staff cymorth drwy gydol 2021 – mae ymrwymiad a chadernid staff wedi bod yn amlwg. Hoffem gofnodi ein diolch i bawb sydd wedi cynnal gwasanaethau drwy gydol y pandemig.

1.7. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'n hadroddiad gwreiddiol ac mae'n seiliedig ar ein canfyddiadau arolygu cyfunol yn ystod 2021. Mae'r strwythur yn dilyn llif gwaith drwy'r System Cyfiawnder Troseddol o blismona i garchardai. Mae'n nodi canfyddiadau ein harolygiadau, yn ogystal â themâu trawsbynciol, ac yn tynnu sylw at lwyddiannau'r System Cyfiawnder Troseddol, ond hefyd yr heriau y mae wedi'u hwynebu ac y mae'n dal i'w hwynebu.

[4] Criminal Justice Joint Inspection. (2021). *Impact of the Pandemic on the Criminal Justice System*. Ar gael yn www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2021/01/2021-01-13-State-of-nation.pdf.

## 2. Llwyth achosion troseddu a chyfiawnder troseddol yn ystod y pandemig

### Amcangyfrifon cyffredinol o droseddu

2.1. Cofnododd yr heddlu 5.8 miliwn o droseddau yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021; mae hyn yn gynnydd o ddau y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y troseddau un y cant (i 4.9 miliwn) wrth eithrio twyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron.

2.2. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn cuddio llawer o amrywiadau eraill yn ôl y math o drosedd. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r amrywiadau i gyflwyno a llacio'r cyfyngiadau symud cenedlaethol drwy gydol y flwyddyn (ochr yn ochr ag amrywiadau tymhorol mwy arferol ar gyfer rhai mathau o droseddau). Er enghraifft, roedd y lefelau isaf o droseddau yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-daro ag ailgyflwyno cyfyngiadau llymach ar gyswllt cymdeithasol a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol a sefydlwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Dechreuodd nifer y troseddau godi o fis Mawrth 2021 ymlaen wrth i gyfyngiadau cenedlaethol ddechrau llacio. Roedd lefelau troseddu rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021 wedi dychwelyd i lefelau tebyg i'r rheini a welwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019.

2.3. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn adrodd bod troseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu ar y lefel uchaf a gofnodwyd mewn cyfnod o 12 mis (170,973 o droseddau) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021, cynnydd o 12 y cant o'r un cyfnod yn 2020. Roedd treisio'n cyfrif am 37 y cant o'r troseddau hyn, ac yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021 cafwyd y nifer blynyddol uchaf o droseddau treisio a gofnodwyd hyd yma (63,136 o droseddau).

2.4. Yn y ffigurau blynyddol hyn, roedd nifer y troseddau rhyw a threisio a gofnodwyd yn is yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud, ond mae cynnydd sylweddol wedi bod ers mis Ebrill 2021. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli lefel y troseddau rhywiol a gofnodir gan yr heddlu. Gall newidiadau yn y ffigurau adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys effaith achosion proffil uchel ac ymgyrchoedd i gynyddu parodrwydd dioddefwyr i riportio digwyddiadau.

#### Llwyth achosion llysoedd a data ôl-groniadau

2.5. Mae'r adran hon yn defnyddio data achosion a gyhoeddwyd gan y llysoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dylid nodi bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adrodd ar sail blwyddyn galendr – sy'n golygu bod chwarter Ch1 yn Ionawr i Fawrth, Ch2 yn Ebrill i Fehefin, Ch3 yn Gorffennaf i Fedi a Ch4 yn Hydref i Ragfyr. Mae hyn yn wahanol i adroddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron, sydd ar sail blwyddyn ariannol – sy'n golygu bod Ch1 yn fis Ebrill i fis Mehefin. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn adrodd ar lwyth achosion yn ôl nifer y diffynyddion tra bo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adrodd ar nifer yr achosion – bydd yr achosion hynny gyda mwy nag un diffynnydd yn cyfrif fel un achos ar gyfer ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ond byddant yn cyfrif fesul diffynnydd ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron.

2.6. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar 31 Mawrth 2022, ddata[5] ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021, sy'n dangos:

[5] Criminal court statistics quarterly: October to December 2021 - GOV.UK

Llysoedd Ynadon:

- Roedd 359,261 o achosion heb eu cwblhau yn y llys ynadon ar ddiwedd Ch4 2021, sy'n gynnydd o 4 y cant ers y chwarter blaenorol (346,021). Fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad o 6 y cant ar y flwyddyn flaenorol a gostyngiad o 15 y cant ar y niferoedd brig yn Ch2 2020 (422,176). Y rheswm pennaf dros y cynnydd chwarterol oedd cynnydd o 11 y cant mewn achosion 'moduro diannod'. Mae'r penderfyniadau cyffredinol yn dal i fod 22 y cant yn is na'r lefelau a welwyd cyn Covid-19.
- Roedd y niferoedd a restrwyd ar gyfer treial yn is na'r lefelau a welwyd cyn Covid-19, gan wrthdroi tuedd gadarnhaol yn ddiweddar. Roedd 21,416 o dreialon wedi'u rhestru ar gyfer Ch4 2021, gostyngiad o 15 y cant ers y chwarter blaenorol (25,192). Dylid nodi hefyd bod cyfraddau heintio Covid-19 wedi cynyddu hefyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021.
- Mae'r gyfradd treialon effeithiol yn dal yn waeth na chyn y pandemig, ond mae'n dal yn gyson ers y chwarter diwethaf. O'r treialon a restrwyd ar gyfer Ch4 2021, y gyfran a oedd yn effeithiol oedd 41 y cant. Yn gyfatebol, nid oedd y cyfraddau aneffeithiol (23 y cant) a threialon chwâl[6] (36 y cant) wedi newid chwaith. Er mwyn cymharu, o'r treialon a restrwyd yn Ch4 2019, roedd y gyfran a oedd yn effeithiol yn 46 y cant, gydag 16 y cant yn aneffeithiol a 38 y cant rhai chwâl.

**Llysoedd y Goron:**

- Ar ddiwedd Ch4 2021, amcangyfrifwyd bod 58,818 o achosion heb eu cwblhau yn Llys y Goron, i lawr 2 y cant o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (60,049) a 3 y cant o'r niferoedd brig yn Ch2 2021 (60,893). Roedd nifer yr achosion a oedd heb eu cwblhau wedi gostwng 2 y cant o ran achosion 'am dreial' a dedfrydu yn y chwarter blaenorol, tra bod apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynadon wedi codi 5 y cant.
- Mae hyd (hyd yr amser rhwng riportio ac achosion yn cael eu clywed) achosion wedi parhau i gynyddu yn Llys y Goron. Ar ddiwedd Ch4 2021, roedd 14,612 o achosion heb eu cwblhau am flwyddyn neu fwy (gyda 3,597 o'r achosion hyn heb eu cwblhau ers dros ddwy flynedd). Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig ac mae'n cynrychioli 25 y cant o'r holl achosion sydd heb eu cwblhau yn ystod y cyfnod diwethaf, i fyny o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (23 y cant) a dyma'r gyfran uchaf a welwyd ers 2014. Cyfartaledd nifer y diwrnodau yr oedd achos wedi bod heb ei gwblhau yn Ch4 2021 oedd 267 diwrnod, ac ar gyfer treialon roedd yn 282; mae'r ddau yn uwch na Ch3 (chwech y cant).
- Roedd canolrif yr amser aros ar gyfer diffynyddion yr ymdriniwyd â nhw mewn achosion 'am dreial' wedi parhau i gynyddu'n sylweddol, o 11 wythnos yn Ch4 2020 i 20 wythnos yn Ch4 2021 – uchafbwynt mewn cyfres. Mae'r amcangyfrifon o'r amser aros wedi cynyddu ar gyfer pob math o bledio a bu cynnydd parhaus yn yr amser aros ar gyfer diffynyddion sy'n pledio'n ddieuog, cynnydd o 14 y cant o 35 wythnos yn Ch4 2020 i 40 wythnos yn Ch4 2021 – uchafbwynt mewn cyfres.
- Yn Ch4 2021 roedd 5,877 o dreialon wedi'u rhestru yn Llys y Goron – ychydig yn is na'r chwarter blaenorol ond yn uwch na lefelau cyn Covid-19. Fodd bynnag, roedd y gyfradd treialon aneffeithiol yn 27 y cant, i fyny o 25 y cant yn Ch3 2021 ac yn uwch na'r lefelau a welwyd rhwng 2014 a 2019.

[6]Treialon yw'r rhain sy'n dod i ben ar ddiwrnod y treial, heb fynd ymlaen naill ai drwy bledio'n euog neu drwy ollwng yr achos.

**Gwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLlTEM) i gefnogi adferiad**

Dywedodd GLlTEM wrthym:

- Buddsoddodd GLlTEM £250 miliwn i gefnogi'r broses o adfer y llysoedd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Adolygiad o Wariant yn darparu £477 miliwn ychwanegol ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol, er mwyn helpu i leihau nifer yr ôl-groniadau a achoswyd gan y pandemig yn Llys y Goron.
- Cafodd y terfyn ar nifer y diwrnodau y gall Llys y Goron eistedd ei ddileu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022. Cafodd sgriniau plecsi-wydr eu gosod mewn dros 450 o ystafelloedd a chafodd tua 70 o ystafelloedd llys eu hail-drefnu i wrando treialon gyda diffynyddion niferus. Mae GLlTEM wedi ymestyn 22 o ystafelloedd Llys y Goron tan ddiwedd mis Mawrth 2023 ac wedi agor 'uwch ystafelloedd llys' newydd ym Manceinion a Loughborough ar gyfer treialon mwy. Mae tri ar ddeg o ystafelloedd llys eraill mewn wyth safle wedi cau.
- Erbyn hyn, mae gan dros 70 y cant o'r holl ystafelloedd llys y caledwedd fideo-gynadledda i redeg y Platfform Fideo Cwmwl (CVP). Gyda chapasiti llawn, byddai hyn yn golygu bod modd gwrando dros 13,000 o achosion bron bob wythnos. Mae GLlTEM yn disgwyl gallu rhestru 20 y cant yn fwy o achosion Llys y Goron yn y flwyddyn nesaf na chyn Covid (116,700 yn 2022/2023 o'i gymharu â 97,000 yn 2019/2020).
- Bydd y llywodraeth yn recriwtio 4,000 o ynadon newydd, mewn ymgais i wneud llysoedd ynadon yn fwy cynrychioladol ac i leihau'r ôl-groniad o lysoedd. Bydd pwerau dedfrydu ynadon hefyd yn cael eu hymestyn o chwe mis i 12 mis ar gyfer trosedd neillog unigol y gellir ei dreialu. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at ostyngiad parhaol yn y derbyniadau Llys y Goron blynyddol, oherwydd rhagwelir y bydd llawer o'r achosion hyn yn cael eu cadw yn y llysoedd ynadon.

2.7. Er bod y mesurau uchod i'w croesawu, mae'r effaith hyd yma yn fach iawn ac ni fydd yr uchelgais i leihau ôl-groniad Llys y Goron i 53,000 o achosion erbyn mis Mawrth 2025 yn gwneud fawr ddim i wella pethau. Mae angen gwneud mwy ar draws y System Cyfiawnder Troseddol er mwyn galluogi pob parti i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r materion. Er enghraifft, mae cynyddu capasiti'r llysoedd yn un ffactor wrth fynd i'r afael â'r ôl-groniadau ond heb gynnydd mewn adnoddau ar gyfer yr erlyniad a'r amddiffyniad, bydd yn ofynnol iddynt ymdrin â mwy o achosion gyda'r un adnoddau.

2.8. Er bod cyfyngiadau ar nifer y diwrnodau eistedd yn Llys y Goron wedi cael eu dileu, mae eu defnyddio yn dibynnu ar fod gan lysoedd ddigon o allu ffisegol a barnwrol. Mae diffyg yn nifer y barnwyr a recriwtiwyd yn golygu mwy o ddibyniaeth ar gofiaduron rhan-amser i lenwi mwy o ddiwrnodau eistedd. Mae cofiaduron fel arfer yn gweithio fel bargyfreithwyr troseddol ac nid ydynt yn eistedd cymaint o ddyddiau â'r disgwyl, a phan fyddant yn eistedd, cânt eu tynnu oddi wrth eu gwaith craidd.

2.9. Mae'r CVP yn fenter bwysig i ganiatáu i achosion symud ymlaen gyda rhith wrandawiadau ond mae angen dull cyson ar draws Cymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, ceir arferion gwahanol ac mae rhai barnwyr eisiau dychwelyd i gynnal bob gwrandawiad wyneb yn wyneb. Ar ben hynny, cafwyd rhai problemau gyda'r system, gan gynnwys prosesu araf ar brydiau.

2.10. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd y llywodraeth ei chardiau sgorio cyfiawnder troseddol ar gyfer pob trosedd sy'n ymwneud â throseddau a threisio gan oedolion. Mae'r cardiau sgorio yn dwyn ynghyd ddata gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd, ac yn adrodd ar niferoedd drwy'r system, athreuliad ac amseroldeb. Cyflwynir y data hwn

bob chwarter ac ar sail treigl blynyddol, ac mae yna wahanol ddadansoddiadau gan heddluoedd lleol, ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, a byrddau cyfiawnder troseddol lleol. Mae hwn yn gynllun i'w groesawu, sy'n golygu bod perfformiad cenedlaethol a rhanbarthol yn debyg ac yn dryloyw. Fel gyda phob cerdyn sgorio, maent yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei fesur fel mater o drefn, a dylai'r llywodraeth fod yn effro i ganlyniadau anfwriadol posibl – er enghraifft, ysgogi gwell prydlondeb ar draul ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

**Llwyth achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron**

2.11. Mae'r tabl isod yn cymharu data cyhoeddedig Gwasanaeth Erlyn y Goron hyd at fis Medi 2021 â data cyn-bandemig:

| **Data llwyth achosion a chwblhau** | Ebrill 2019 i Mawrth 2020 (y data diweddaraf cyn Covid-19 sydd ar gael) | Hydref 2020 i Medi 2021 (y data diweddaraf sydd wedi'i gyhoeddi sydd ar gael) |
|---|---|---|
| **Achosion wedi'i cwblhau yn y llysoedd ynadon** | 389009 | 385282 |
| **Llwyth achosion byw llysoedd ynadon*** | 64,201 (ar 31 Mawrth 2020) | 76,990 (ar 31 Medi 2021) |
| **Achosion wedi'u cwblhau yn Llys y Goron** | 62037 | 60260 |
| **Llwyth achosion byw Llys y Goron** | 45,268 (ar 31 Mawrth 2020) | 69,843 (ar 31 Medi 2021) |

* Llwyth achosion byw yw nifer yr achosion byw sydd gan y GEG ar yr adeg honno.

2.12. Mae amrywiadau rhwng ardaloedd yn amlwg. Mae gan dimau Llys y Goron ar draws pob Ardal lwyth achosion uwch na chyn y pandemig. Er bod y llwyth achosion byw wedi cyrraedd ei anterth ac yn gostwng erbyn hyn (gan ostwng o 69,843 yn Ch2 2021/22 i 68,046 yn Ch3 2021/22 gyda'r nifer gaiff eu cwblhau yn uwch na'r nifer a dderbynnir), mae rhai o Ardaloedd y GEG (gan gynnwys GEG Gogledd Llundain, GEG  De Llundain, GEG De Ddwyrain Lloegr ac eraill) yn parhau i weld eu llwyth achosion byw yn cynyddu. Mae gan yr Ardaloedd hyn lwyth achosion byw sylweddol sy'n uwch nag ardaloedd eraill y GEG. Mae Ardaloedd eraill wedi gweld ôl-groniadau Llys y Goron yn sefydlogi ac mae rhai yn lleihau'r ôl-groniad.

2.13. Mae timau llysoedd ynadon Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi gweld ôl-groniadau'n lleihau'n gyffredinol, ac mae rhai Ardaloedd wedi gweld llwyth achosion byw yn gostwng yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar gyfer pob Ardal, ac mae'r llwyth achosion byw cenedlaethol yn Ch3 2021/2022 yn dal yn uwch na chyn Covid-19. Hefyd, mae llawer o Ardaloedd wedi profi mwy o bwysau yn eu timau llysoedd ynadon, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o weithwyr newydd yn tueddu i gael eu lleoli yn y timau hyn. Mae eu diffyg profiad cymharol, gyda'r angen am hyfforddiant a chefnogaeth, yn achosi baich ychwanegol. Mae'r gwaith o recriwtio erlynwyr ar draws y GEG yn parhau.

2.14. Mae data a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn dangos bod derbyniadau ynghylch cyhuddo wedi aros yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Yn Ch2 2021/2022, derbyniodd Gwasanaeth Erlyn y Goron 48,178 o unigolion a amheuir ar gyfer penderfyniadau ynghylch cyhuddo, a chafodd 44,550 o achosion unigolion a amheuir cyn cyhuddo eu cwblhau. Yn Ch4 2019/2020 (y chwarter olaf cyn y pandemig), derbyniodd

Gwasanaeth Erlyn y Goron 61,179 o achosion, a chwblhawyd 56,260. Y nifer uchaf o unigolion dan amheuaeth a dderbyniwyd oedd 64,007 (Ch1 2020/2021) a'r nifer uchaf a gwblhawyd oedd 55,564 (Ch4 2020/2021).

### Llwyth achosion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf

2.15. Roedd llwyth achosion y gwasanaeth troseddau ieuenctid wedi gostwng ymhellach yn ystod cyfnod y pandemig, yn enwedig ar gyfer gwaith a oedd wedi'i orchymyn gan y llys. Yr oedd rheolwyr achos yn y gwasanaethau a arolygwyd fel arfer yn goruchwylio llai na 10 achos yr un. Mae hyn wedi galluogi gwasanaethau i dreulio mwy o amser ar weithgarwch atal neu gyda phob plentyn unigol.

2.16. Mae'r tueddiadau hyn yn amlwg yn yr ystadegau cenedlaethol hefyd. Mae data ar gyfer cyfnod y pandemig, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, yn dangos gostyngiadau enfawr yn nifer yr achosion ieuenctid sy'n dod i'r system cyfiawnder ieuenctid o'i gymharu â 2019/2020. Roedd nifer yr achosion o arestio plant dan 18 oed ar eu hisaf yn y gyfres amser – ac roeddent 19 y cant yn is o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; roedd nifer yr 'achosion o ddedfrydu' yn y llys 28 y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol. Ymunodd 8,800 â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf ar draws Cymru a Lloegr, a gostyngodd y boblogaeth o bobl ifanc mewn caethiwed yn gymesur â'r nifer fwyaf mewn blwyddyn ers i'r cofnodion ddechrau, i 560 ym mis Mawrth 2021, sy'n ostyngiad o 28 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac i lawr o 2,000 yn 2011.

2.17. Cyfanswm llwyth achosion y gwasanaeth prawf ar ddiwedd mis Medi 2021 oedd 234,827, sy'n gynnydd o bump y cant ers mis Medi 2020, ac felly mae wedi aros yn gymharol sefydlog. Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad, y broblem fwyaf sy'n wynebu'r Gwasanaeth Prawf yw'r ôl-groniadau o ran darparu gwaith di-dâl a rhaglenni achrededig.

### Carchardai

2.18. Cynyddodd poblogaeth y carchardai un y cant rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Rhagfyr 2021, i 79,092. Cynyddodd y boblogaeth remand chwe y cant dros yr un cyfnod. Yn fwy penodol, cododd y boblogaeth 'euogfarn heb ddedfryd' 16 y cant a chododd y boblogaeth 'heb dreial' un y cant. Er gwaethaf y cynnydd hwn, roedd cyfanswm poblogaeth y carchardai yn dal bum y cant yn is nag ym mis Rhagfyr 2019.[7]

2.19. Yn ôl ystadegau diogelwch yn y ddalfa a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022, yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2021, roedd cynnydd yn nifer y marwolaethau a oedd wedi'u hachosi gan eu hunain o 0.8 i 1.1 marwolaeth am bob 1,000 o garcharorion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn ar ei uchaf ar gyfer carcharorion rhwng 21 a 24 oed a rhwng 30 a 39 oed, gyda chyfradd o 1.4 marwolaeth am bob 1,000 o garcharorion. Cynyddodd cyfradd y marwolaethau y mae pobl ar remand yn eu hachosi eu hunain hefyd, o 1.7 i 2.5 marwolaeth am bob 1,000 o garcharorion, dros yr un cyfnod. Yn dilyn gostyngiad yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2020, roedd y cynnydd hwn yn golygu bod cyfraddau'r marwolaethau yr oedd pobl wedi'u hachosi eu hunain yng nghyfanswm poblogaeth y carchardai a'r rheini a oedd ar remand nawr yn debyg i lefelau cyn y pandemig (1.0 a 2.5 marwolaeth am bob 1,000 o garcharorion, yn y drefn honno, yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2019).

---

[7] Data o *Ystadegau Chwarterol Rheoli Troseddwyr:* Gorffennaf i Fedi 2019 (ar gael yn https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-july-to-september-2019) ac *Ystadegau Chwarterol Rheoli Troseddwyr: Gorffennaf i Fedi 2021* (ar gael yn https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-july-to-september-2021).

2.20. Yn y 12 mis hyd at fis Medi 2021, roedd nifer yr achosion o hunan-niweidio wedi gostwng 11 y cant, i 52,726, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn benodol, roedd nifer yr achosion wedi gostwng 12 y cant mewn carchardai i ddynion a phump y cant mewn carchardai i fenywod. Dros yr un cyfnod, cynyddodd cyfradd yr achosion hunan-niweidio naw y cant mewn carchardai i ddynion (545 o ddigwyddiadau am bob 1,000 o garcharorion) ond cynyddodd bump y cant mewn carchardai i fenywod (3,713 o ddigwyddiadau am bob 1,000 o garcharorion). O'i gymharu â lefelau cyn y pandemig, roedd cyfradd yr achosion hunan-niweidio am bob 1,000 o garcharorion 10 y cant yn is nag yn y 12 mis hyd at fis Medi 2019 (sef y lefelau uchaf a welwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf). Yn fwy penodol, roedd cyfradd y digwyddiadau hunan-niweidio wedi gostwng 14 y cant yng ngharchardai dynion ers mis Medi 2019 ond wedi cynyddu 23 y cant mewn carchardai i fenywod dros yr un cyfnod.[8]

[8]Data o *Safety in Custody Quarterly*: Diweddariad hyd at Fedi 2019 (ar gael ynhttps://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-ruarterly-update-to-september-2019) a *Safety in Custody Quarterly*: *Diweddariad i Fedi 2021* (ar gael yn https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-july-to-september-2021).

# 3. Adferiad: Yr Heddlu

## I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal?

3.1. Mewn adroddiad arolygu Ebrill 2021 ar ymateb yr heddlu i’r pandemig yn 2020, daeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a’r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) i’r casgliad, er bod rhai anghysondebau, yn gyffredinol, bod heddluoedd wedi cymryd camau pendant ar unwaith i ymateb i amgylchiadau eithafol y pandemig.

3.2. Canfu’r Gwasanaeth hefyd fod y galw am blismona wedi newid yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd llai o adroddiadau am rai troseddau, fel dwyn a lladrata, a mwy o angen i gefnogi gwaith gwasanaethau rheng flaen eraill yn ogystal â gorfodi’r cyfyngiadau symud. Roedd y newid hwn yn golygu bod heddluoedd yn defnyddio’u hadnoddau’n wahanol o’i gymharu â’r sefyllfa cyn y pandemig. Er enghraifft, roedd rhai heddluoedd yn gallu clirio ôl-groniadau o warantau arestio heb eu cwblhau.

3.3. Ers hynny, mae troseddu, a oedd wedi gostwng yn sylweddol ar ddechrau’r cyfnod clo cyntaf, ym mis Mawrth 2020, wedi codi i lefelau cyn y pandemig. Yn wir, o’i gymharu â’r flwyddyn cyn Covid-19 a ddaeth i ben ym mis Medi 2019, bu cynnydd o 14 y cant yng nghyfanswm y troseddau. I raddau helaeth, roedd hyn yn cael ei yrru gan gynnydd o 47 y cant mewn twyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron.

3.4. Roedd tueddiadau mewn troseddau a welwyd cyn y pandemig wedi cyflymu, gyda lefelau uwch o droseddau ar-lein, a mwy mewn mannau preifat neu ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd cyflym mewn seiber-stelcio. Dywedodd adroddiad HMICFRS *Violence Against Women and Girls*[9] fod y duedd hon wedi creu nifer o broblemau i heddluoedd, megis yr angen i gynyddu’r ddarpariaeth o wasanaethau fforensig digidol i gael tystiolaeth.

3.5. Er bod y galw ar blismona felly’n parhau i newid ac addasu, mae arolygwyr yn gyffredinol yn canfod bod arfer yn ôl i’r sefyllfa normal. Nid yw hyn yn syndod, o gofio bod plismona yn gyffredinol wedi cynnal ei wasanaethau i’r cyhoedd ac wedi gwarchod y cyhoedd yn ystod y pandemig. Camodd y gwasanaeth i’r adwy yn ystod cyfnod Covid-19, gan blismona ein strydoedd, ymchwilio i droseddau ac amddiffyn pobl agored i niwed – yn ogystal â gorfodi rheoliadau newydd oedd yn ymwneud â’r pandemig.

3.6. Fodd bynnag, mae arolygiadau yn aml yn canfod effaith barhaus ar y gweithlu. Er enghraifft, arweiniodd y pandemig at ostyngiad sylweddol yn y ddarpariaeth hyfforddiant. Mae llawer o heddluoedd yn ei chael yn anodd ymateb i hyn, o gofio bod y galw arnynt bellach yn cynyddu. Mae’r beichiau gwaith sylweddol sy’n cael eu hysgwyddo gan dditectifs yn dal i beri cryn bryder, gan adlewyrchu’r hyn a ddywedodd heddluoedd wrthym yn eu datganiadau rheoli heddluoedd – eu bod yn dal i boeni am y diffyg yn nifer y ditectifs.[10] Roedd y ddau faes hyn eisoes yn her cyn y pandemig, ac yn parhau felly.

---

[9] Police response to violence against women and girls – Final inspection report - HMICFRS (justiceinspectorates.gov.uk)

[10] Hunanasesiad yw datganiad rheoli heddluoedd y mae prif gwnstabliaid (a'r rhai sy'n cyfateb yn Llundain) yn ei baratoi a'i roi i Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi bob blwyddyn. Dyma ddatganiad y prif gwnstabl ac esboniad o’r galw y mae’r heddlu’n disgwyl ei wynebu yn y dyfodol agos.

## Arwyddion o gynnydd

3.7. Ddechrau 2021, dywedodd HMICFRS yn ei adroddiad Plismona yn y Pandemig[11] fod problemau a oedd yn bodoli cyn y pandemig, fel ôl-groniadau o ran archwilio eitemau fforensig a chyfryngau digidol, wedi gwaethygu.

3.8. Mae heddluoedd wedi ymateb i'r cynnydd yn y galw am dystiolaeth ddigidol drwy gynyddu maint y timau sy'n gwneud hyn, rhoi contractau allanol a chyflwyno 'ciosgau' ffonau symudol. Cynnyrch caledwedd digidol yw'r rhain y gellir eu gosod ledled ardaloedd yr heddlu a'u defnyddio gan swyddogion a staff sydd wedi cael hyfforddiant. Fodd bynnag, dim ond mewn achosion cymharol syml y mae'r ciosgau'n addas i'w defnyddio, a lle mae swyddogion eisoes yn gallu cael mynediad i'r ffôn drwy ei nodweddion diogelwch.

3.9. Mewn meysydd eraill o blismona, rydym wedi dod o hyd i rywfaint o dystiolaeth o arferion a gyflwynwyd, neu y cafodd eu defnydd ei gyflymu, oherwydd bod Covid-19 yn parhau ac yn arwain at fanteision ehangach. Er enghraifft, mae cyfleusterau cyswllt fideo yn y llys mewn dalfeydd, sy'n caniatáu i achosion gael eu clywed ar-lein, yn dal i gael eu defnyddio os amheuir bod gan y sawl sy'n cael ei gadw'n gaeth Covid-19 neu os cadarnheir bod ganddynt Covid-19 – ond gallant hefyd fod yn fuddiol os oes gan y sawl sy'n cael ei gadw'n gaeth anabledd. Yn ystod ein harchwiliad o ddalfa yn Swydd Warwick, er enghraifft, cafodd unigolyn a oedd yn defnyddio cadair olwyn ei arestio ar warant a bwcio lle iddynt mewn ystafell yn y ddalfa am 12pm. Bu iddynt ymddangos yn y llys yn brydlon wedyn drwy'r cyswllt fideo a chawsant eu rhyddhau o'r ddalfa erbyn 3.30pm. Roedd hyn yn lleihau eu cyfnod yn y ddalfa ac roedd yn ganlyniad da i'r unigolyn.

3.10. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref raglen ymgodiad, gyda mwy o gyllid ar gyfer gwasanaeth yr heddlu. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau i gynyddu nifer swyddogion yr heddlu 20,000 dros y tair blynedd ddilynol. Mewn termau rhifiadol, effaith y rhaglen ymgodiad yn fras fydd gwrthdroi gostyngiad yn nifer yr heddlu er 2010.

3.11. Gyda'r cynnydd hwn, bydd gwasanaeth yr heddlu'n gallu ateb mwy o'r galwadau y mae'n eu hwynebu. Ym mhob ystyr, mae'r manteision hyn i'w croesawu'n fawr.

3.12. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd i'r heddlu weithredu'r rhaglen ymgodi; mae recriwtio ar y raddfa hon yn ymrwymiad mawr. Yn hyn o beth, mae ymdrechion a chyflawniadau'r heddlu'n haeddu clod.

3.13. Rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2021, cafodd yr heddlu 166,615 o geisiadau.[12] Erbyn diwedd mis Medi 2021, roedd yr heddluoedd wedi recriwtio 11,053 o swyddogion ychwanegol[13] ac wedi gwella amrywiaeth yn sylweddol. O'r rhain, roedd mwy na phedwar o bob 10 o recriwtiaid newydd yn fenywod a dywedodd mwy nag un o bob 10 (a nododd eu hethnigrwydd) eu bod yn perthyn i grŵp Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig eraill.[14]

3.14. Er y dylid cymeradwyo'r cynnydd hwn mewn niferoedd ac amrywiaeth, nid yw'n sicr y bydd yr heddlu'n cyflawni amcan y rhaglen o gwblhau'r cynnydd o 20,000 erbyn mis Mawrth 2023. Yn ogystal, mae gallu'r gwasanaeth i gadw ei recriwtiaid newydd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn dal heb ei gadarnhau.

---

[11] HMICFRS. (2021). *Policing in the Pandemic – The Police Response to the Coronavirus Pandemic during 2020*. Ar gael yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publication-html/the-police-response-to-the-coronafeirws-demic-during-2020/.

[12] Y Swyddfa Gartref. (2021). Police officer uplift, England and Wales, quarterly update to 30 September 2021. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/statistics/police-officer-uptf-hily-update-to-september-2021/police-officer-uppifft-england-and-wales-header-update-to-30-september-2021.

[13] Fel o'r blaen.

[14] Fel o'r blaen.

## 4. Adferiad: Gwasanaeth Erlyn y Goron

### I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal?

4.1. Mae Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM yn cynnal rhaglen o arolygiadau o 14 Ardal ddaearyddol Gwasanaeth Erlyn y Goron. O'r naw Ardal a arolygwyd hyd yma, mae pob un yn dal i gael ei herio gan lwyth achosion cynyddol a phwysau eraill o ganlyniad i'r pandemig. Mae GEG Gogledd Llundain a GEG De Llundain mewn sefyllfa waeth nag ar adeg yr adroddiad Covid-19 ar y cyd diwethaf, gyda llwythi achosion ac ôl-groniadau Llys y Goron yn parhau i gynyddu.

4.2. Yn gyffredinol, mae nifer staff Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cynyddu, gan fod pob Ardal wedi bod yn recriwtio, ond mae hynny wedi digwydd ar draul gwaith ychwanegol ym maes cynefino, hyfforddi a mentora. Mewn un arolygiad Ardal, dywedwyd wrth Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi bod hanner y staff yn newydd yn eu swyddi yn ystod y flwyddyn (yn newydd i Wasanaeth Erlyn y Goron, yn newydd i'r Ardal neu'n ymgymryd â rôl newydd yn yr Ardal). Mae ardaloedd hefyd wedi wynebu heriau gyda newidiadau o ran cnewyllyn rheolwyr ac uwch reolwyr cyfreithiol a chadw staff. Er nad yw cyfradd trosiant cyffredinol o 7.4 y cant (ffigurau'r GEG) ar gyfer erlynwyr yn genedlaethol yn arbennig o uchel, ceir amrywiadau mewn Ardaloedd. Mae symudiad mewnol staff medrus a phrofiadol i rannau eraill o'r GEG yn cael ei deimlo'n gryf mewn rhai Ardaloedd. Mae recriwtio a symud staff o gwmpas i lenwi swyddi gwag ac absenoldebau, neu i ddelio â baich gwaith cynyddol, wedi arwain at lawer o staff, gan gynnwys rheolwyr, yn ddibrofiad yn eu rôl.

4.3. Mae gweithio o bell yn dod â heriau wrth anwytho a hyfforddi staff. Gall staff deimlo'n fwy ynysig, er y cafwyd strategaethau clir mewn Ardaloedd i fynd i'r afael â hyn. Mae Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi wedi canfod bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron raglen gynefino genedlaethol wedi'i strwythuro'n dda, sydd wedi'i haddasu ar gyfer gweithio o bell, ac mae pob Ardal a arolygwyd yn ei dilyn. Yn gyffredinol, mae cynefino staff newydd i Ardal yn well na'r gefnogaeth a'r hyfforddiant cynefino a roddir pan fydd staff presennol yn trosglwyddo i rôl newydd yn yr Ardal. Mae gweithio o bell hefyd yn golygu bod staff yn teimlo'n ynysig, ac mae llawer wedi ysgwyddo'r pwysau o addysgu gartref, gofalu am y rhai sy'n agored i niwed neu fod yn sâl eu hunain. Mae Ardaloedd GEG a'r GEG wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar les staff drwy gydol y pandemig, ond mae arolygiad Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi wedi tynnu sylw at y ffaith bod pwysau parhaus yn dechrau arwain at 'gronni' ac mae rhai staff wedi gadael ac ymddeol yn gynharach nag y byddent wedi'i fwriadu'n naturiol. Mae trosiant staff yn ychwanegu at y pwysau ar y rhai sy'n aros. Hyd yn oed gyda'r heriau hyn, mae sgoriau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn arolwg pobl y gwasanaeth sifil a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021 yn dangos bod y canlyniadau ar gyfer dangosyddion sy'n mesur straen a lles gweithwyr yn gadarnhaol ar y cyfan i Wasanaeth Erlyn y Goron, gan gyfateb i neu ragori ar feincnod y gwasanaeth sifil. Barn Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi yw bod hyn o ganlyniad i'r lefel uchel o gefnogaeth a ffocws ar les yr oedd GEG wedi'i gynnal yn ystod y pandemig.

4.4. Mae staff cyflawni gweithredol, fel erlynwyr, wedi bod yn wynebu heriau sylweddol o ran rheoli llwyth achosion cynyddol. Y mwyaf o achosion sy'n cael eu rhedeg, yn gyffredinol, y mwyaf o dasgau achos sydd i'w rheoli. Mae pwysau ychwanegol yn ystod y pandemig yn cael eu nodweddu gan yr anawsterau wrth baratoi bwndeli rheithgor; mae'r rhain wedi gorfod cael eu paratoi wythnos ymlaen llaw, eu storio'n ddiogel i osgoi unrhyw halogiad a chael eu cludo'n ddiogel i'r llys priodol. Mae'r broses hon yn anos o ganlyniad i newidiadau hwyr i'r bwndel neu restrau'r llys.

4.5. Mae rhai Ardaloedd wedi mynd i'r afael yn fwriadol â rheoli perfformiad yn ffurfiol, oherwydd ofnau bod staff yn colli gwytnwch a bod morâl yn gwanhau. Mae'r amser ychwanegol y mae rheolwyr llinell yn ei dreulio ar les hefyd yn cael effaith ar yr amser sydd ganddynt i sicrhau ansawdd y gwaith achos. Er bod hyn yn ddealladwy o ystyried cyd-destun y pandemig, mae canfyddiadau HMCPSI yn tynnu sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy i ganolbwyntio ar ansawdd gwaith achos.

4.6. Ceir consensws cyffredinol gan Ardaloedd y tu allan i Lundain fod argaeledd eiriolwyr allanol yn broblem wirioneddol, ar gyfer achosion Llys y Goron ac fel asiantau yn y llysoedd ynadon, ar adeg pan fo ar yr Ardaloedd angen mwy o'r ddau. Mae'r pandemig wedi golygu bod llawer wedi gadael y Bar hunangyflogedig a hyd yn oed wrth i bethau ddychwelyd i normal, mae llawer heb ddychwelyd. Gan gydnabod y mater, addasodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei gynllun ffioedd yn ystod y pandemig i wneud rhai taliadau'n gynharach yn yr achos fel mesur i gefnogi'r Bar yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod Covid-19 wedi cyflymu argyfwng presennol yn y bar troseddol. Mae Cymdeithas y Bar Troseddol [15]yn dweud bod 'argyfwng cyllido ...wedi arwain at gannoedd o'n cydweithwyr na allent bellach gynnal gyrfa ar gyflog sydd wedi dirywio mewn termau real dros y 25 mlynedd diwethaf'.

4.7. Nid yw'r pwysau ar ymarferwyr amddiffyn wedi llacio'n sylweddol. Yn ystod camau cynnar y pandemig, cafodd staff eu rhoi ar ffyrlo, felly roedd ymgysylltu rhwng Ardaloedd a'r amddiffyniad yn anodd iawn. Mae problemau'n parhau, fodd bynnag, gyda gallu ymarferwyr amddiffyn i wneud trefniadau i weld cleientiaid ar fechnïaeth neu yn y ddalfa.[16] Mae hyn yn effeithio ar allu erlynwyr i ymgysylltu â'r tîm amddiffyn, i gytuno ar pa dystion y mae'n ofynnol iddynt roi tystiolaeth yn y treial (sy'n effeithio ar ddioddefwyr a thystion) ac i gytuno ar y golygiadau sydd eu hangen i gyfweld trawsgrifiadau i'w defnyddio fel tystiolaeth (gyda'r baich dilynol ar staff sy'n paratoi achosion). Mae'r gallu i ddatrys achosion yn gynnar gyda phleon derbyniol hefyd yn cael ei lesteirio, felly mae cyfle'n cael ei golli i atal achosion rhag mynd i giwiau treial hir.

4.8. Roedd gan ardaloedd hefyd nifer llawer mwy o achosion, a oedd angen terfynau amser carcharu estynedig, yn rhannol oherwydd ôl-groniadau o ran penderfynu ar achosion, ond hefyd oherwydd bod y terfynau statudol wedi cael eu hymestyn fel mesur dros dro rhwng 28 Medi 2020 a 28 Mehefin 2021. Gan fod ôl-groniadau Llys y Goron yn dal yn sylweddol, a bod treialon eisoes yn cael eu rhestru yn 2023, bydd angen estyniadau o hyd ar lawer o achosion carcharu. Datblygodd Gwasanaeth Erlyn y Goron dempled cenedlaethol penodol, a oedd yn cynnwys cyfraith achosion berthnasol a rhesymau cyffredin sy'n ymwneud â Covid-19 dros wneud ceisiadau am estyniad. Canfu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fod erlynwyr yn defnyddio'r templedi'n briodol ac yn gwneud ceisiadau o ansawdd da ac amserol.

## Arwyddion o gynnydd

4.9. Mae'r pandemig wedi ysgogi perthnasoedd mwy rhagweithiol o lawer ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yn Ardaloedd y GEG lle mae rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar ddelio ag ôl-groniadau. Mae gan GEG raglen adfer a gwella weithredol sefydledig sy'n dwyn ynghyd, o dan strwythur llywodraethu clir, feysydd gwaith sy'n cynnwys cyhuddo, llysoedd ynadon a gwaith Llys y Goron, pobl, cyllid a data. Nod y rhaglen yw cydlynu'r gwaith adfer a gwella ar draws y gwasanaeth ac ymgysylltu ag amrywiaeth o feysydd gwaith ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Mae camau gweithredu ac ymatebion wedi cael eu rhoi ar

[15] Criminal Bar Association. (2022). *Results of Survey on CLAR and taking Action*. Ar gael yn https://www.criminalbar.com/resources/news/results-of-survey-on-clar-and-taking-action/.

[16]Nododd Arolygiaeth Carchardai EM y mater hwn hefyd yn rhai o'i harchwiliadau carchar diweddar, gyda llai o garcharorion yn dweud y gallent fynychu ymweliadau cyfreithiol yn rhwydd a chyfathrebu â'u cynrychiolydd cyfreithiol nag yn yr arolygiad blaenorol.

waith i arwain y gwaith adfer a gwella. Mae cynllun busnes GEG yn cynnwys y rhaglen waith hon fel rhan o'i blaenoriaethau.

4.10. Cafwyd amrywiol ymdrechion i ddefnyddio ffyrdd arloesol o weithio i fynd i'r afael ag ôl-groniadau a phwysau eraill; er enghraifft:

- Roedd pob Ardal yn defnyddio eiriolwyr y Goron i gynnal gwaith adolygu achosion ar ddechrau'r pandemig; mae archwiliadau Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi yn dangos bod y canlyniadau'n gymysg, ond roedd hyn yn ymgais werth chweil i ddefnyddio adnoddau'n wahanol pan nad oedd modd eu defnyddio yn ôl y bwriad.
- Defnyddiodd un Ardal ei heiriolwyr y Goron i adolygu'r 250 achos mechnïaeth hynaf a chwynnu unrhyw rai a oedd yn wan neu'n anghynaladwy; roeddent yn argymell bod tua traean ohonynt yn cael eu terfynu a/neu fod gwarantau'n cael eu tynnu'n ôl. Roedd hyn yn lleihau'r ôl-groniad o dreialon.
- Roedd yr Ardal hon, wrth i un o farnwyr Llys y Goron gychwyn mewn swydd, hefyd yn cynnal llysoedd penderfynu. Dewisodd yr Ardal yr achosion terfynau amser carcharu lle'r oeddent o'r farn y dylid pledio'n euog, neu lle'r oedd pleon derbyniol, a rhestrodd y llys y rhain ar gyfer rhith wrandawiadau. Roedd hyn hefyd yn lleihau'r ôl-groniad o achosion.
- Roedd pencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi gohirio rhywfaint o fonitro cenedlaethol, er mwyn lleihau'r pwysau ar staff, gan gynnwys asesiadau ansawdd unigol ac adborth i'r heddlu ar ansawdd eu ffeiliau. Nid oedd yr gohiriadau'n orfodol, a pharhaodd rhai Ardaloedd gyda llai o asesiadau ansawdd unigol mwy penodol neu fonitro ansawdd ffeiliau'r heddlu ar ôl cyhoeddi chweched argraffiad Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar Gyhuddo.
- Roedd nifer o Ardaloedd wedi cymryd bargyfreithwyr o'r bar troseddol fel unigolion ar secondiad – rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Rhagfyr 2021, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyflogi 65 o bobl ar secondiad o'r Bar. Roedd hyn yn rhoi dealltwriaeth fwy cyflawn o waith a system Gwasanaeth Erlyn y Goron i'r sawl a secondiwyd, a hefyd yn arwain at recriwtio parhaol mewn o leiaf un tîm trais a throseddau rhywiol difrifol.
- Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar lefel genedlaethol wedi datblygu templed ar gyfer ceisiadau i ymestyn terfynau amser carcharu, a oedd yn cynnwys cyfraith achosion berthnasol a rhesymau cyffredin yn ymwneud â Covid-19 dros wneud y ceisiadau. Canfu arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi o derfynau amser carcharu fod defnydd da wedi'i wneud o'r templedi, a bod ceisiadau amserol o ansawdd da i'w hymestyn.
- Lansiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei egwyddorion gweithio hybrid ym mis Chwefror 2022 i sicrhau, wrth i'r GEG symud ymlaen drwy adferiad, ei fod yn gallu cefnogi iechyd, diogelwch a lles ei bobl a helpu i fynd i'r afael â'r her o ran adnoddau drwy wella eu cynnig cyflogaeth, cefnogi recriwtio a chadw staff.

# 5. Adferiad: Gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid

## I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal?

### Y Gwasanaeth Prawf

5.1. Ym mis Mehefin 2021, cafodd gwasanaethau prawf ledled Cymru a Lloegr eu huno'n un gwasanaeth sector cyhoeddus. Roedd uno gwasanaethau prawf yn waith cymhleth, gyda llawer o rannau'n symud. Roedd angen strwythurau, polisïau a phrosesau newydd ar y Gwasanaeth Prawf newydd, a daethpwyd ag oddeutu 16,000 o staff o 54 o sefydliadau at ei gilydd – a hynny ar yr un pryd â sicrhau goruchwyliaeth barhaus i dros 220,000 o bobl.

5.2. Roedd llawer o'r gwaith cynllunio ar gyfer uno wedi digwydd yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn rhoi rhai rheolwyr ac uwch arweinwyr dan bwysau, gan eu bod yn ceisio rhedeg gwasanaethau o ddydd i ddydd a chynllunio ar gyfer y dyfodol ar yr un pryd. Er bod y paratoadau ar y trywydd iawn yn gyffredinol cyn uno, roedd pryderon o hyd ynghylch diffyg swyddogion prawf cymwys a gwasanaethau arbenigol mewn rhai ardaloedd.

5.3. Wrth i'r pandemig fynd rhagddo, daeth yn amlwg na fyddai gwasanaethau prawf yn dychwelyd i normalrwydd cyn y pandemig yn 2021. Pan ddechreuodd y pandemig, ym mis Mawrth 2020, rhoddodd y gwasanaethau prawf fodelau darparu eithriadol ar waith, a oedd yn nodi blaenoriaethau allweddol a ffyrdd o weithio i gydymffurfio â chyfyngiadau Covid-19 ar gyswllt wyneb yn wyneb a chadw pellter cymdeithasol. Roedd y trefniadau hyn, a gafodd effaith ddifrifol ar y gallu i gyflawni rhai swyddogaethau craidd, fel goruchwylio gorchmynion gwaith di-dâl, yn weithredol tan fis Tachwedd 2021. Yna dechreuodd y gwasanaethau weithredu o dan safonau busnes-fel arfer cenedlaethol newydd. Ym mis Ionawr 2022, fodd bynnag, daethpwyd â modelau darparu eithriadol yn ôl eto, yn dilyn ton o achosion o amrywiolyn Omicron Covid-19 a gosod cyfyngiadau 'cynllun B' y llywodraeth.

5.4. Yn ymarferol, arweiniodd codi'r cyfyngiadau symud at fwy o oruchwyliaeth wyneb yn wyneb yn ystod 2021. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd bron i dri chwarter y cyswllt dros y ffôn. Erbyn mis Tachwedd, roedd ymarferwyr prawf wedi dychwelyd i gysylltiad wyneb yn wyneb â phobl ar brawf mewn dros 60 y cant o'r gwaith rhyngweithio. Mae rhai pobl ar brawf wedi dweud eu bod yn ffafrio goruchwyliaeth dros y ffôn ond, ar y cyfan, mae Arolygiaeth Prawf EM yn croesawu dychwelyd i gyswllt wyneb yn wyneb. Mae gwasanaethau prawf yn cynnwys meithrin perthnasoedd adeiladol a heriol; mae ymarferwyr yn aml yn gallu meithrin perthynas yn gynt yn bersonol ac yn gallu sylwi ar arwyddion corfforol ac iaith y corff.

5.5. Weithiau, mae'n ofynnol i bobl sydd ar brawf gwblhau rhaglenni achrededig fel rhan o'u goruchwyliaeth. Nod y rhain yw mynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiad troseddol, ac maent yn aml yn digwydd wyneb yn wyneb, mewn grwpiau. Ym mis Mawrth 2020, cafodd y gwaith o ddarparu rhaglenni achrededig wyneb yn wyneb mewn grwpiau ei ohirio, er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf. Cafodd rhaglenni eu haddasu ar gyfer darpariaeth un-i-un o bell, ac roedd grwpiau llai, wyneb yn wyneb, oedd yn cadw pellter cymdeithasol wedi ailddechrau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi. Erbyn mis Tachwedd 2021, roedd y gwaith o ddarparu rhaglenni achrededig ar tua 70 y cant o'r lefelau cyn Covid-19 – ond roedd llawer o ostyngiadau wedi bod ar hyd y ffordd.

5.6. Mae sefydlu rhaglenni achrededig unwaith eto wedi bod yn her, ac mae cynllun adfer ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad drwy ddarpariaeth amgen. Mae grwpiau'n llawer llai nag yr arferent fod – yn aml gyda chymhareb o un hwylusydd i dri chyfranogwr. Pan fydd unigolion yn gwarchod neu'n agored i niwed, mae sesiynau un-i-un wedi cael eu cynnal. Mae adnoddau o dan bwysau, o ran staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, a'r

ystafelloedd cyfarfod sydd ar gael sy'n caniatáu cadw pellter cymdeithasol. Mae'r Arolygiaeth wedi argymell bod y Gwasanaeth Prawf yn monitro'r defnydd o ddulliau cyflwyno eraill yn ofalus ac yn cynnal gwerthusiad brys o'u heffeithiolrwydd.

5.7. Gall rhaglenni achredededig helpu unigolion i symud tuag at fywyd di-drosedd; os daw trwydded neu orchymyn unigolyn i ben, mae'r gofyniad i gwblhau rhaglen achredededig yn dod i ben hefyd (oni bai ei fod yn cael ei ymestyn). Mae Arolygiaeth Prawf EM yn disgwyl gweld mwy o bobl yn dechrau ac yn cwblhau rhaglenni achredededig fel rhan o'u dedfryd yn 2022, a gweld llai o bobl yn 'dod i derfyn eu hamser', ond roedd yn bryderus am nifer y rhaglenni nad oeddent wedi dechrau eto yn yr arolygiadau a gynhaliwyd yn 2021.

5.8. Mae'r pandemig hefyd yn parhau i gael effaith fawr ar gyflawni gorchmynion llys ynghylch gwaith di-dâl, a elwir hefyd yn 'ad-daliad cymunedol'. Cafodd y prosiectau eu gohirio rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020 ac eto rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2021 er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau symud cenedlaethol. Mae cynlluniau wedi gorfod gwneud addasiadau sylweddol – er enghraifft, rhedeg grwpiau llai i sicrhau bod unigolion yn gallu cadw pellter cymdeithasol wrth wneud gwaith di-dâl ac wrth deithio yn ôl ac ymlaen o safleoedd mewn faniau bach. Mae rhai prosiectau wedi cael eu llesteirio gan ddiffyg goruchwylwyr i reoli unigolion.

5.9. O ganlyniad, roedd nifer y bobl a ddedfrydwyd i waith di-dâl ond nad ydynt wedi cwblhau eu horiau o fewn y 12 mis a ganiatawyd ar gyfer hyn yn dal yn uchel dros y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn diwedd mis Tachwedd 2021, roedd dros 13,000 o unigolion a ddedfrydwyd i waith di-dâl yn perthyn i'r categori hwn – a oedd yn cynrychioli degau o filoedd o oriau o waith heb ei gwblhau. Mae angen cymeradwyaeth y llys ar gyfer estyniad y tu hwnt i 12 mis, ac er ei fod fel arfer yn cael ei roi, mae hyn yn dal i fod yn faich ychwanegol ar wasanaeth llysoedd sydd eisoes wedi'i orlwytho. Bydd unigolion wedyn yn aros ar y llyfrau nes eu bod yn cwblhau eu horiau gwaith di-dâl. Mae trefniant newydd yn rhoi elfen o ddisgresiwn i ymarferwyr prawf derfynu gorchmynion gyda llai nag 20 awr ar ôl.

5.10. Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi dechrau arolygu'r unedau darparu gwasanaeth prawf newydd. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn y ddau arolwg a gwblhawyd, gwelsom fod Covid-19 wedi tarfu'n sylweddol ar weithgareddau fel cyfarfodydd wyneb yn wyneb â phobl ar brawf a darparu rhaglenni achredededig a gwaith di-dâl. Roeddem yn disgwyl i waith sy'n ymwneud â risg a diogelwch gael ei flaenoriaethu, ond ni welsom lawer o enghreifftiau o hyn yn digwydd. Yn y naill faes a'r llall, roedd angen gwneud mwy o waith i reoli'r risgiau a wynebir gan bobl ar orchmynion cymunedol, i sicrhau bod safonau'n cyd-fynd â rheoli pobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar neu sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n peri risg uwch o niwed difrifol.

## Arwyddion o gynnydd

5.11. Bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf ddarparu llawer mwy o oriau o oruchwyliaeth gwaith di-dâl i glirio'r ôl-groniad – mae'r Gwasanaeth yn amcangyfrif y bydd angen cyflawni 155 y cant o'r oriau cyn Covid-19 dros dair blynedd. Mae hon yn her sylweddol. Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn monitro effaith cynllun Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn ofalus er mwyn cynyddu cyflymder, swm ac ansawdd y gwaith di-dâl a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys negodi prosiectau mawr gyda phartneriaid cenedlaethol, cyflogi 500 yn rhagor o oruchwylwyr a staff cefnogi, ac addasu cludiant.

5.12. Roedd y pandemig hefyd wedi ysbrydoli dull arloesol o sicrhau y gallai unigolion ag anghenion penodol barhau i wneud gwaith di-dâl. Datblygodd grŵp o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ne Lloegr, er enghraifft, waith di-dâl 'prosiect mewn bocs', y gellid ei anfon at unigolion a oedd yn gwarchod gartref neu na allent fynd i safleoedd allanol fel arall. Roedd y prosiectau'n cynnwys gwneud gorchuddion wyneb a chardiau cyfarch yn unol â safonau

caeth y diwydiant, gyda'r elw'n mynd i elusen. Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi mabwysiadu'r syniad hwn a bydd yn ei ddefnyddio pan fydd unigolion yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

5.13. Ym mis Awst 2020, cytunodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd â'r gwasanaethau prawf i flaenoriaethu'r rhaglenni achrededig sydd wedi'u targedu at y rhai sy'n peri'r risg fwyaf o niwed difrifol. Roedd hyn yn helpu i ganolbwyntio'r adnoddau oedd ar gael yn fwy effeithiol. Erbyn mis Tachwedd 2021, roedd darparu rhaglenni achrededig ar gyfer y rheini a oedd wedi cyflawni trosedd rhywiol yn 76 y cant y lefelau cyn Covid-19, ac roedd y rhaglen Meithrin Perthnasoedd Gwell, ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig, yn 80 y cant.

## Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

5.14. Er bod arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM o wasanaethau troseddau ieuenctid yn 2021 wedi dangos rhai canlyniadau cryf er gwaethaf y pandemig, roedd cyfyngiadau Covid-19 yn dal yn her, ac mae'r adferiad yn parhau i 2022. Cynhaliodd yr Arolygiaeth gyfweliadau ag arweinwyr 16 o wasanaethau lleol ar ddiwedd 2021 a chanfu nad yw'r cymhelliant i ddarparu'r cymorth gorau posibl i blant wedi newid. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol dro ar ôl tro wedi cael effaith negyddol ar blant ac ymarferwyr fel ei gilydd.

5.15. O ran gwaith gyda phlant, mae'r ymarferwyr wedi cael mynediad cyfyngedig at gyfleusterau, ac ni fu'n bosibl rhedeg gwaith grwp na defnyddio ystafelloedd cyfarfod llai. Mae hyn wedi arwain at wasanaethau'n derbyn ymyriadau i'r plentyn yn y gymuned, gyda chynnydd mewn sesiynau un-i-un, a defnyddio mannau anffurfiol fel parciau a gerddi, yn ogystal â lleoliadau cymunedol megis canolfannau ieuenctid. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, ar yr amod y gellir sicrhau cyfrinachedd o hyd a bod trefniadau amgen a mwy diogel yn bosibl i blant sy'n peri risg uwch i staff.

5.16. Mewn rhai achosion, roedd y pandemig wedi gwaethygu problemau presennol neu wedi gwneud bywyd yn anoddach fyth i blant ag anghenion cymhleth ac amryfal. Er enghraifft, dywedodd rhai arweinwyr fod plant sydd eisoes wedi ymddieithrio o'r ysgol cyn y pandemig yn teimlo'n fwy ynysig byth. Ar ben hynny, roedd cael plant i mewn i hyfforddiant a chyflogaeth yn cael ei lesteirio gan ddiffyg swyddi lefel mynediad, o ganlyniad i gau'r sector lletygarwch ac allgau digidol. Roedd darpariaeth iechyd meddwl yn anodd i'r rhai a oedd yn ddibynnol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gyda rhestrau aros hir a diffyg ymweliadau wyneb yn wyneb. Hyd yn oed gyda gwell mynediad at dechnoleg, nid oedd rhai plant yn ymgysylltu ag addysg na hyfforddiant; roedd rheolau cadw pellter cymdeithasol yn atal ymarferwyr rhag cludo plant hŷn i sesiynau hyfforddi neu gyfweliadau am swyddi.

## Arwyddion o gynnydd

5.17. Nodwyd bod dwy ran o dair o'r 33 o wasanaethau troseddau ieuenctid a arolygwyd gan Arolygiaeth Prawf EM yn 2021 yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol' – nid oedd yr un ohonynt yn 'annigonol'. Ar lefel strategol, cafwyd gwelliannau i rai byrddau rheoli'r gwasanaeth troseddau ieuenctid. Cyn y pandemig, roedd cynrychiolaeth anghyson yn aml o sefydliadau cyfiawnder troseddol, addysg ac iechyd lleol mewn cyfarfodydd bwrdd, ac nid oedd aelodau'r bwrdd yn gwneud digon i eirioli dros blant. Mae symud cyfarfodydd bwrdd rheoli ar-lein wedi gwella presenoldeb ac wedi cryfhau'r berthynas â phartneriaid mewn rhai achosion. Cafodd cyfarfodydd y panel atgyfeirio, sy'n penderfynu pa fath o wasanaeth sydd ei angen ar blentyn, eu symud ar-lein hefyd yn ystod y pandemig; roedd hyn yn caniatáu i aelodau hŷn/agored i niwed o'r panel gwirfoddolwyr gymryd rhan wrth warchod. Rydym yn gobeithio y bydd gwasanaethau troseddau ieuenctid yn ystyried cadw trefniadau hybrid, er mwyn sicrhau bod y bobl iawn o gwmpas y bwrdd i wneud penderfyniadau allweddol.

5.18. Yn gyffredinol, mae uwch arweinwyr yn y gwasanaethau troseddau ieuenctid yn dweud bod ganddynt lwyth achosion llai. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cynnwys risg uchel o niwed ac achosion treisgar. Dywedodd uwch arweinwyr wrth arolygwyr hefyd fod gwaith gyda phlant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys yn cyfrif am gyfran gynyddol o'u gwaith a gwelsom fod ansawdd y gwaith hwn wedi gwella yn 2021. Dechreuodd staff ddychwelyd i adeiladau swyddfa a chyfarfodydd wyneb yn wyneb yn 2021, ond roedd hyn yn amrywio'n sylweddol o wasanaeth i wasanaeth, gyda llawer o staff yn dal i orfod gweithio gartref.

# 6. Adferiad: Carchardai

## I ba raddau y mae ymarfer wedi dychwelyd i normal?

6.1. Mae archwiliadau gan Arolygiaeth Carchardai EM wedi canfod bod yr adferiad mewn carchardai wedi bod yn araf ac yn anghyson ar y cyfan, gan adael llawer o garcharorion yn rhwystredig gan nad yw eu bywyd wedi newid tra bod y cyfyngiadau yn y gymuned wedi cael eu codi. Mae'n siomedig nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud i wella'r amser allan o'r gell, sydd yn y rhan fwyaf o garchardai ymhell o ddychwelyd i lefelau oedd eisoes yn annigonol cyn y pandemig. Ar wahân i'r gyfran fach mewn gwaith, i lawer o garcharorion, nid yw treulio 22.5 awr y dydd dan glo yn eu cell yn anarferol, fel nad yw gorfod dewis rhwng cwblhau tasgau domestig sylfaenol neu ymarfer corff. Yn yr arolygon yr Arolygiaeth o oedolion sy'n garcharorion yn 2020/2021, dywedodd 49 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn treulio llai na dwy awr y tu allan i'w cell ar ddiwrnod arferol o'r wythnos, a gododd i 67 y cant ar benwythnosau.[17] Yn y flwyddyn adrodd 2019/2020, roedd y ffigurau hyn yn 19 y cant a 26 y cant, yn y drefn honno.[18]

6.2. Gwelodd yr arolygwyr lawer iawn o amrywiaeth yn yr amser allan o'r gell mewn gwahanol garchardai. Er enghraifft, yn ystod arolygiad o garchar lleol categori B, canfuwyd bod carcharorion yn cael eu datgloi am o leiaf bum awr y dydd, ond mewn carchar derbyn ac ailsefydlu categori B, roedd dros dri chwarter y carcharorion yn treulio llai na dwy awr y dydd allan o'r gell o ddydd Llun i ddydd Gwener.

6.3. Roedd y ddarpariaeth o weithgarwch pwrpasol yn aml yn parhau i fod yn wael ac ni allai arolygwyr weld unrhyw reswm dros y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth rhwng gwahanol sefydliadau. Roedd arolygiadau'n nodi'n gyson nad oedd digon o ddarpariaeth addysg a gwaith ar gyfer y rhan fwyaf o garcharorion. Roedd arweinwyr addysg yn aml yn rhy araf i ailddechrau darparu gwersi wyneb yn wyneb ac yn aml nid oeddent yn rhoi blaenoriaeth i'r carcharorion hynny a fyddai'n elwa fwyaf o'r math hwn o ddysgu. Roedd pecynnau addysg yn y celloedd yn bennaf o ansawdd gwael ac roedd ymgysylltiad carcharorion yn isel. Roedd rhai eithriadau cadarnhaol, lle'r oedd carchardai wedi rhoi cynlluniau adfer clir ar waith ar gyfer gweithgareddau pwrpasol neu wedi cadw carcharorion i ymgysylltu â rhyw fath o weithgaredd drwy gydol y pandemig. Roedd arolygiadau o ystâd y plant yn dal i ganfod nad oedd y ddarpariaeth addysg wedi gwella mor gyflym ag yn y gymuned, a oedd yn destun pryder.

6.4. Nododd Arolygiaeth Carchardai EM nifer o broblemau gyda lefelau staffio, ac roedd rhai ohonynt wedi bodoli ers cyn y pandemig. O fewn ystâd y plant, roedd y cyfraddau uchel o

[17] Data o'r dadansoddiad o ymatebion carcharorion sy'n oedolion (o garchardai dynion a menywod fel ei gilydd) a arolygwyd fel rhan o arolygiadau llawn a gyhoeddwyd ym mlwyddyn adrodd 2021/2022.
[18] Data o'r dadansoddiad o ymatebion carcharorion sy'n oedolion (o garchardai dynion a menywod fel ei gilydd) a arolygwyd ym mlwyddyn adrodd 2019/2020.

staff sy’n gweithio mewn canolfannau hyfforddi diogel yn cael effaith ar allu plant i ffurfio perthynas ystyrlon gyda’r rhai a oedd yn gofalu amdanynt. Yn yr ystâd oedolion, roedd y gwaith adsefydlu’n aml yn cael ei lesteirio gan brinder staff. Dywedodd llai na hanner y carcharorion a holwyd eu bod yn cael eu cefnogi gan staff i gyflawni eu hamcanion neu eu targedau[19], a nododd yr arolygwyr yn gyson ddiffyg rheolwyr troseddwyr yn y carchar, a arweiniodd at lwyth achosion uchel; adleoli’n aml oherwydd materion staffio eraill; neu gyfuniad o’r ddau. Roedd hyn yn golygu nad oedd POM yn aml yn gallu cael cyswllt cyson â charcharorion i ddarparu’r lefelau angenrheidiol o gefnogaeth. Mewn rhai carchardai, roedd nifer fawr o swyddogion carchar newydd, a gafodd eu recriwtio ar ôl Covid-19 ac nad oeddent erioed wedi gweld trefn lawn ar waith. Roedd arolygwyr yn aml yn gweld staff amhrofiadol yn methu â herio ymddygiad gwael. Dywedodd carcharorion eu bod yn teimlo’n rhwystredig gan swyddogion a oedd yn defnyddio rheolau’n anghyson neu nad oeddent yn gallu delio â’u hymholiadau.

6.5. Mae atal y cynllun gweithiwr allweddol, sydd wedi’i gynllunio i alluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol gyda charcharorion a’u cefnogi drwy eu cyfnod yn y carchar, hefyd wedi lleihau’r cyfleoedd i feithrin perthynas rhwng staff a charcharorion. Mae’r cynllun wedi cael ei ailgyflwyno’n araf, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i staff asesu lles carcharorion y tu hwnt i gynnal arsylwadau sylfaenol.

6.6. Mae’r adferiad yn ystâd y plant hefyd wedi bod yn araf ac yn anghyson. Er bod amser allan o’r gell ac addysg wedi gwella ers y ddarpariaeth gyfyngedig iawn ar ddechrau’r pandemig, nid oedd y canlyniadau ym maes gweithgarwch pwrpasol yn ddigon da ym mhob Sefydliad Troseddwyr Ifanc, ac eithrio un. Mae’r rhan fwyaf o blant yn treulio pump neu chwe awr y tu allan i’w cell bob dydd yn ystod yr wythnos a llawer llai dros y penwythnos.

## Arwyddion o gynnydd

6.7. Canfu’r arolygiadau rai enghreifftiau o ymarfer a gwaith arloesol gan staff i gynnal morâl a chefnogi carcharorion drwy’r amgylchiadau anodd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn tri charchar i fenywod, lle nododd yr arolygwyr ddull gweithredu unigol a rhagweithiol ar gyfer gofalu am y menywod mwyaf agored i niwed. Soniodd arolygwyr am waith gan dimau carchar mwy diogel a thimau iechyd meddwl i asesu a mynd i’r afael â risgiau unigol ar gyfer hunan-niweidio ac i wella lles cyffredinol menywod.

6.8. Roedd un carchar categori C wedi cynnal llawer o weithgareddau dan arweiniad carcharorion. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi’r hyder i garcharorion unigol ddefnyddio eu menter a chynnal gweithdai, garddwriaeth a gwasanaethau cefnogi ar gyfer carcharorion mwy agored i niwed.

6.9. Mewn carchar agored, roedd arweinwyr wedi gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau’r sefydliad a chysylltiadau â chyflogwyr i gynnal lefelau uchel o gyflogaeth ymysg carcharorion y tu mewn a’r tu allan i’r carchar. O ystyried y diffyg gwaith siomedig yn y rhan fwyaf o garchardai, roedd yn galonogol gweld hynny, ac roedd yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o gymuned a oedd yn sail i ddiwylliant y sefydliad.

6.10. Er nad yw’n syndod bod lefelau trais wedi gostwng o ganlyniad i gyfyngiadau symud y pandemig, erbyn hyn maent dim ond ar yr un lefel ag yr oeddent ar gyfer 15 mlynedd cyntaf y ganrif – cyfnod pan dreuliodd carcharorion lawer mwy o amser allan o’u celloedd.

[19]Data o’r dadansoddiad o ymatebion carcharorion sy’n oedolion (o garchardai dynion a menywod fel ei gilydd) a arolygwyd fel rhan o arolygiadau llawn a gyhoeddwyd ym mlwyddyn adrodd 2021/2022.

## 7. Pa risgiau sydd ar ôl?

7.1. Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn llysoedd ynadon, mae pryderon difrifol yn parhau yn Llys y Goron. Bydd y cynnydd yn nifer yr achosion carcharu, a'r broses bresennol o restru treialon yn Llys y Goron hyd at 2023, yn parhau i fod yn her i Ardaloedd y GEG ei rheoli. Mae'r data cyfyngedig sydd ar gael i'r cyhoedd yn awgrymu bod y cyfnod y mae diffynyddion yn aros yn y ddalfa ar remand yn uwch na chyn y pandemig. Ym mis Mehefin 2019, roedd chwech y cant o'r boblogaeth ar remand yn cael eu cadw ar remand am fwy na blwyddyn, ond ym mis Mehefin 2021 roedd hyn yn cynrychioli 12 y cant o'r boblogaeth ar remand.[20] Mae amcangyfrifon o ddata derbyniadau carchar yn awgrymu bod yr amser cyfartalog a dreuliwyd ar remand yn weddol sefydlog rhwng 2015 a 2019 (yn amrywio rhwng 39 a 42 diwrnod), ac yna'n cynyddu i 51 diwrnod yn 2020 a 61 diwrnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021.[21]

7.2. Mae pwysau i restru achosion yn gyflym i'w cael drwy'r system, er bod hynny'n ddealladwy er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniadau, yn cael effaith ganlyniadol ar asiantaethau sy'n rheoli mwy o achosion gydag adnoddau cyfyngedig. Bydd pwysau staff GEG yn gwaethygu os bydd ymdrechion i glirio ôl-groniadau drwy restru'n rhy gyflym neu restru gormod o dreialon a gwrandawiadau eraill. Dywedodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus wrth y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ym mis Mehefin 2021[22]: *"mae blinder yn ffactor go iawn yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron."* Bydd y Gwasanaeth Prawf hefyd dan bwysau wrth i Lysoedd y Goron fynd i'r afael â'u hôl-groniadau a'r llywodraeth yn recriwtio mwy o swyddogion heddlu – bydd y naill a'r llall, yn eu tro, yn arwain at fwy o alw am ddedfrydau cymunedol a rheoli dedfrydau.

7.3. Gall blinder staff ar ôl dwy flynedd o weithio drwy'r pandemig, ynghyd â diwedd yr argyfwng presennol, olygu bod 'ysbryd y Blitz' wedi lleihau neu ddiflannu yn gyfan gwbl. Ar ben hynny, nid yw effaith amrywiolyn Omicron Covid-19 ar absenoldebau staff wedi cael ei hadlewyrchu yn y data eto, er ei bod yn amlwg bod cynnydd enfawr wedi bod yn genedlaethol mewn diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch, gofalu neu hunanynysu (naill ai o ganlyniad i brofi'n bositif, ar ôl bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif neu warchod). Os bydd Omicron yn addasu neu os bydd amrywiad arall yn dod i'r amlwg, mae potensial i gael mwy o fesurau amddiffynnol a salwch i rwystro ymdrechion i adfer.

7.4. Gallai agor yr economi wrth i'r wlad ddod at ei hun greu problemau o ran cadw staff i asiantaethau cyfiawnder troseddol, sydd wedi recriwtio o amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys y sector preifat. Er enghraifft, mae ymarferwyr amddiffyn wedi ymuno â Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gallai adferiad y cwmnïau hynny (yn enwedig os bydd y cyflog yn gwella) arwain at staff yn dychwelyd i'w hen swyddi. Mae pryderon o hyd ynghylch cyrraedd targedau recriwtio'r heddlu a phrinder ditectifs profiadol. Mae'r bar troseddol sy'n crebachu yn ffactor arall sydd â'r potensial i gael effaith ar effeithiolrwydd y SCT.

[20]Cafwyd y data o: Prisoners on Remand. Question for Ministry of Justice (ar 10 Mawrth 2022). Ar gael yn https://chamuestions-statements.parliament.uk/written-uestions/detail/2022-03-10/138041.

[21]Cafwyd y data o: Prisoners on Remand. Question for Ministry of Justice (ar 07 Medi 2021). Ar gael yn https://chamuestions-statements.parliament.uk/written-uestions/detail/2021-09-07/44183. Noder: mae'r data yn cynnwys nodyn 'Oherwydd y fethodoleg a ddefnyddir yma, gall y ffigurau hyn gynnwys amser a dreuliwyd ar fechnïaeth yn y gymuned. Er enghraifft, bydd unigolyn sy'n mynd i'r ddalfa ar remand cyn-treial, yna ar fechnïaeth ar ôl euogfarn yn aros am ddedfryd, ac yna'n cael dedfryd o garchar. Bydd y ffigurau hyn yn cynnwys yr amser a dreuliwyd ar fechnïaeth'.

[22]Ymateb i C35 yn ystod y sesiwn hon: https://committees.parliament.uk/oralevidence/2363/pdf/.

7.5. Mae'r ystâd carchardai wedi wynebu diffygion nas gwelwyd o'r blaen o ran staff, a achoswyd yn rhannol gan absenoldebau oherwydd salwch Covid-19 a gweithdrefnau tracio ac olrhain, ond hefyd gan heriau mawr o ran recriwtio a chadw staff. Nid yw staff sydd wedi ymuno yn cael y gefnogaeth, yr her a'r datblygiad y mae arnynt eu hangen ac mae arolygwyr yn parhau i weld staff yn cael eu hadleoli i feysydd lle nad oes ganddynt lawer o brofiad, os o gwbl. Mae diffygion yn cyfyngu ar y drefn y gellir ei chyflwyno ac yn golygu nad yw staff yn gallu creu a chynnal y berthynas gadarnhaol ac adeiladol gyda charcharorion sy'n bwysig i'w hadsefydlu.

7.6. Mae'r Gwasanaeth Prawf newydd wedi etifeddu risgiau, megis diffyg swyddogion prawf cymwysedig mewn rhai rhanbarthau. Mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn drwy gynyddu nifer yr hyfforddeion, ond bydd yn cymryd sawl blwyddyn iddynt gymhwyso a dod yn fedrus ac yn hyderus yn eu gwaith. Mae hefyd angen mwy o oruchwylwyr gwaith di-dâl a hwyluswyr rhaglenni achrededig i ddelio â'r ôl-groniadau.

7.7. Mae gwasanaethau troseddau ieuenctid yn wynebu risgiau sy'n ymwneud â staffio ac ôl-groniadau mewn llysoedd. Dywedodd arweinwyr wrth yr Arolygiaeth fod rhai staff eisiau gadael oherwydd blinder. Mae llawer o'r genhedlaeth gyntaf o reolwyr YOT a sefydlodd y timau troseddau ieuenctid cynnar 20 mlynedd yn ôl bellach yn dynesu at oed ymddeol, a allai arwain at golli profiad ac arbenigedd ar draws gwasanaethau.

7.8. Bydd plant sy'n cyrraedd 18 oed ac sydd wedi cyflawni troseddau mwy difrifol yn cael eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron. Mae ôl-groniadau yno wedi arwain at ryddhau llawer o blant dan ymchwiliad, gyda'r posibilrwydd y bydd achos llys yn gwmwl drostynt am sawl blwyddyn.

7.9. Rydyn ni'n dal i boeni am iechyd meddwl a lles carcharorion, o ystyried y cyfnodau hir maen nhw wedi'u treulio mewn celloedd heb fawr o waith i'w wneud. Mae cyfyngiadau a osodwyd oherwydd Covid-19 wedi bod yn rhy araf yn cael eu llacio, a hyd yn oed ar ôl i hynny ddigwydd, bydd problemau staffio yn parhau i olygu bod carcharorion yn treulio gormod o amser yn eu cell. Mae llai o gyfleoedd i gymdeithasu ac i gymryd rhan mewn addysg a gwaith yn cael effaith andwyol arnynt a bydd yn golygu nad ydynt wedi'u paratoi'n iawn ar gyfer eu rhyddhau. Ar ben hyn mae effaith y gwaith adsefydlu cyfyngedig sydd wedi digwydd ers dechrau'r pandemig. Er bod rhai carchardai wedi ailddechrau rhaglenni ymddygiad troseddol cyn gynted â phosibl a bod rhai wedi parhau i ddarparu rhyw fath o waith ymyrryd i grwpiau bach o garcharorion drwy gydol y pandemig, mae'r gwaith hwn yn dal i gael ei ohirio mewn rhai eraill. Yn ystod arolygiad o garchar hyfforddi categori B, nododd Arolygiaeth Carchardai EM nad oedd unrhyw raglenni nac ymyriadau grŵp wedi gallu cael eu cynnal yn 2021, ac mai ychydig iawn o waith un-i-un arall oedd ar gael. Roedd hyn yn golygu bod rhai carcharorion wedi cael eu rhyddhau, ac y byddent yn parhau i gael eu rhyddhau, heb gwblhau gwaith ymddygiad troseddol allweddol a gynlluniwyd i leihau eu risg o aildroseddu. Er ei bod yn galonogol bod gwaith i asesu anghenion y boblogaeth wedi dechrau mewn sawl carchar, efallai na fydd effaith cyfyngiadau Covid-19 ar garcharorion yn cael ei deall yn llawn am beth amser.

7.10. Rydym hefyd yn bryderus ynghylch effaith uno gwasanaethau prawf ar ddarpariaeth adsefydlu. Mewn tua dwy ran o dair o adroddiadau arolygu carchardai a gyhoeddwyd rhwng mis Mai 2021 a mis Ionawr 2022, nododd yr arolygwyr naill ai ddiffyg darpariaeth gwasanaeth adsefydlu neu ddiffyg eglurder o ran darparu gwasanaethau adsefydlu ers yr uno. Roedd hyn yn effeithio'n benodol ar garcharorion a oedd yn aros am dreial neu ddedfryd ar remand, gan nad oedd partneriaid adsefydlu bellach wedi rhoi cymorth neu gyngor iddynt. Yn ystod arolygiad o garchar derbyn ac adsefydlu categori B, roedd arolygwyr yn bryderus o ganfod nad oedd y contract cymorth tai newydd a oedd i fod i ddechrau cyn bo hir yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y boblogaeth fawr ar remand. Roedd hyn yn golled sylweddol o ran darpariaeth, ac roedd gwasanaethau adsefydlu tebyg

ar gyfer carcharorion remand wedi cael eu tynnu'n ôl yn y rhan fwyaf o'r carchardai categori A a B a arolygwyd, gan adael llawer o garcharorion ar remand heb fawr ddim cefnogaeth i baratoi ar gyfer eu rhyddhau. Er bod y model gweithredu targed ar gyfer uno'r gwasanaeth prawf yn nodi y bydd cymorth adsefydlu'n parhau i gael ei ddarparu ar gyfer carcharorion ar remand, nid yw hyn yn cael ei weld yn ymarferol ar hyn o bryd.

7.11. Mae trefniadau gweithio 'hybrid' yn debygol o aros yn eu lle i lawer o staff yn y dyfodol. Er bod rhai manteision amlwg i drefniadau o'r fath, mae rhai staff hefyd wedi dweud wrth arolygwyr fod gweithio gartref neu weithio mewn swyddfeydd cadw pellter cymdeithasol wedi lleihau'r cyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â chydweithwyr mwy profiadol. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen ei ystyried wrth ddatblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae yna hefyd heriau i ffyrdd newydd o weithio. Er enghraifft, nid yw pob llys yn croesawu defnyddio CVP ar gyfer rhith wrandawiadau, a chawsom wybod am un barnwr sydd wedi dechrau gofyn am brawf o haint Covid-19/hunanynysu fel rheswm i fynychu gwrandawiad gan ddefnyddio CVP. Yn gyffredinol, mae lleihau'r defnydd o CVP yn peri risg; mae rhai Ardaloedd wedi gallu rheoli eu prinder staff, ac felly eu llwyth gwaith, drwy recriwtio o'r tu allan i'w hardal ddaearyddol.

## 8. Sylwadau i gloi

8.1. Nid oes yr un o’r risgiau a nodwyd yn ein hadroddiad ar y cyd ar gyfer 2021 wedi cael eu lliniaru yn eu cyfanrwydd ac mae adferiad yn dal heb ei gyflawni. Mae’r system yn ymdopi oherwydd lefel o weithgarwch sy’n cael ei chwtogi’n artiffisial a llai o reoli perfformiad a disgwyliadau o ran ansawdd – ac ni all hynny barhau. Yr her fwyaf i’r system, fel y gwelwn ni hi, yw symud yn ôl o drefniadau darparu eithriadol y pandemig i ddull mwy busnes-fel arfer o weithio’n gyffredinol.

8.2. Mae llawer o’r SCT yn dibynnu ar bobl yn rhyngweithio’n bersonol, sydd o reidrwydd wedi cael ei gwtogi’n ddifrifol. Fodd bynnag, nid yw’r gofyniad i weinyddu cyfiawnder wedi dod i ben, a bydd yn parhau. Lle mae arwyddion o fusnes fel arfer yn dod i’r amlwg, mae’n ymwneud â gweithlu sydd wedi blino ac sy’n dal i addasu i ffyrdd newydd o weithio a mynd yn ôl i’r arfer. Heb gynllun cydlynol ar gyfer y system gyfan, mae’n debygol y bydd y cynnydd yn ddigyswllt. O ystyried natur y System Cyfiawnder Troseddol, wrth i un gwasanaeth weld adferiad, mae hynny’n debygol o wthio problemau i’r gwasanaeth nesaf, ac efallai na fydd y gwasanaeth hwnnw wedi adfer digon i ymdopi. Gallai hyn, ynghyd â’r cynnydd yn nifer swyddogion yr heddlu ac uno gwasanaethau prawf, yn ogystal â gweithlu sydd heb ddigon o adnoddau mewn rhai mannau a/neu gweithlu amhrofiadol, chwalu’r system ymhellach.

8.3. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sicrhau cyllid gan y Trysorlys i leihau’r ôl-groniad i 53,000 o achosion erbyn mis Mawrth 2025. Rydym wedi dweud o’r blaen bod y system mewn cyflwr enbyd cyn Covid-19, a bod y sioc honno wedi gwneud pethau’n waeth. Byddai’r gostyngiad cymedrol hwn yn golygu y byddai’r ôl-groniad yn parhau’n uwch na chyn y pandemig. Mae oedi annerbyniol o’r fath yn cael effaith andwyol ar ddioddefwyr a diffynyddion, ac yn cael effaith ganlyniadol ar asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Nid yw’r effaith hirdymor ar y rheini sydd wedi bod mewn cysylltiad â’r system yn ystod y cyfnod hwn a’r prinder mewnbwn maent wedi’i brofi, yn enwedig yn y ddalfa, wedi cael ei gwireddu’n llawn eto. Gwaethygir y sefyllfa ymhellach gan yr erydu ar hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system.

8.4. Mae’n dal yn rhy gynnar i gynnal archwiliad ôl-weithredol llawn o effaith y pandemig gan fod y system yn dal i addasu, heb y cyfle i bwyso a mesur ac ystyried pa ‘ffyrdd arferol o weithio’ ddylai fodoli nawr. Mae’r adolygiad hwn yn ein harwain i’r casgliad nad yw’r rhan fwyaf o asiantaethau’n gallu symud i adferiad llawn eto, hyd yn oed i’w sefyllfa cyn Covid-19. Bydd ôl-effeithiau’r pandemig yn cael eu teimlo am gyfnod hir a bydd adferiad y system gyfan yn cymryd llawer mwy o amser nag a ragwelwyd ar y dechrau.